



**‘Tad yw Duw y byd cenhedlodd.  
Duw yw’r Mab y cyfan prynnodd.  
Ysbryd Glân yw Duw ein lluniwr.  
Barnwr, Carwr a chysurwr.’**

Morgan Llwyd, 1619-1659

## Gweddï mewn awr o ofn

Arglwydd, galwn arnat o ganol byd cythryblus. Rydym yn byw ymhlith pobl sydd a’u hysbryd yn gythryblus. Arglwydd, clyw ni pan fyddwn ninnau wedi ein gorchfygu gan bryderon ac ofnau na allwn eu trechu.

Arglwydd, hyd yn oed yng nghanol llawnder y tymor hwn, ei harddwch a’i dlysnï, ni allwn guddio’n clustiau rhag pobl sy’n gwingo gan feichiau eu hamgylchiadau; sy’n cael eu trechu gan eu hunigrwydd, eu tristwch, eu galar, neu sy’n pryderu am eu bywoliaeth neu am eu sefyllfa ariannol.

Arglwydd allwn ni ddim a chau ein llygaid i’r tristwch sydd yn ein byd, ein gwlad, ein cymdeithas.

Ar adegau, allwn ni ddim ond wylowethiau mewn galar, weithiau mewn rhwystredigaeth – oherwydd ein hanallu i fedru newid pethau go iawn.

Arglwydd.

O Arglwydd Iesu.

‘Hoff enw, fy ymguddfa mwy, fy nghraig a’m tarian yw, trysorfa ddi-ball yw o ras, i mi y gwaela’n fyw.’

Yn ein hangen yr ydym yn tywallt ein holl ofidiau ger dy fron.

Gwyddost am ei gwendidau. Gwyddost am y pechodau rheiny sy’n ein baglu bob dydd.

Gwyddost am ein hofnau, ein hamheuon, yr adegau rheiny pan fydd anghrediniaeth yn gwasgu pob goleuni o’n calonnau.

Yn enw Iesu a wnei di faddau i ni.

Ar sail dy gariad a dywalltwyd allan ar y groes, a wnei di dosturio wrthym ni. Paid â chuddio dy wedd oddi wrthym. Llewyrcha dy wyneb arnom ni. Gad i’r cwbl sy’n ein dychryn, y cwbl sy’n ein baglu cael ei oleuo gan lewyrch dy bresenoldeb.

I’r rhai sy’n ffeindio’r daith yn serth ac yn garegog a wnei di balmantu eu llwybrau. I’r rhai sy’n galaru, wnei di eu cysuro gyda phresenoldeb dwfn dy dragwyddol dosturi a’th gwmni. I’r rhai sy’n cael eu gwasgu gan feichiau’r byd a wnei di roi nerth i wynebu’r pwysau. I’r rhai sy’n ofni iddynt gollu dy bresenoldeb a wnei di atgoffa eu calonnau dy fod wedi addo, na all angau nac einioes eu gwahanu o afael dy gariad. I’r rhai sy’n hesb a’u calon yn sych gad i ni glywed drachefn dy wahoddiad grasol – curwch ac fe agorir i

chwi, ceisiwch ac fe gewch fy ysbryd Glân, yn ffrwd fywiol yn llifo o’ch mewn.

Gwyddom mai llestri pridd, bregus, yn llawr o graciau ydym.

Ac eto, fe geraist y llestri hyn gymaint nes dod dy hun i gartrefu am ysbaid mewn corff dynol, egwan. Fe ddewisaist ddatguddio dy ddaioni atom ac ymddiried i ni neges yr efengyl i gartrefu ynom.

Ac yr wyt wedi tywallt dy Ysbryd Glân i’n llenwi. Nid casgen ddiogel mo’n calonnau; costrelau sydd angen eu llenwi’n barhaus ydynt. Mor dirion, mor rasol wastraffus ydwynt yn dy serch tuag atom. Derbyn ni, blant afradlon i’th gôl.

Yn enw Iesu Grist.

### Cydymdeimlo

Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol y Parch Athro Gwilym H. Jones yng Nghapel Mawr, Porthaethwy ar ddydd Iau’r 7fed o Fehefin. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant a’i briod Mari, a’i blant Rhys, Huw a Ruth. Bydd ysgrif coffa lawnach yn ymddangos yn fuan ar dudalennau’r Goleuadau.